Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

---

18 Medi/September, 2019

At : Aelodau Cygnor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar **ddydd Mawrth, 24 Medi, 2019 am 2.00 o'r gloch yp, yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Dr Gwynne Jones*
**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Tuesday, 24 September, 2019 at 2.00 p.m., to be held at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Dr Gwynne Jones*
**SECRETARY**

**Ysgrifennydd/Secretary :** Dr. Gwynne Jones **Trysorydd/Treasurer :** Mr. Marc Jones

**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

**R H A G L E N**

**1** **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd.

**2** **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd.

**3** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**4** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 16 Ebrill, 2019.

**5** **ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL** (Tudalennau 9 - 12)

**Pwyllgor Grantiau Cyffredinol**

Cyflwyno cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 10 Gorffennaf, 2019.

**6** **LLYWODRAETHIANT YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN (YEYM) A CHYMDEITHAS ELUSENNOL YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE ASSOCIATION** (Tudalennau 13 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan yr Ysgrifennydd.

**7** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 17 - 18)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**8** **CAIS AM CYLLID GRANT ODDI WRTH GWMNI BUDD CYMUNEDOL CEMAES** (Tudalennau 19 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | T Ll Hughes MBE (Cadeirydd)<br>Richard Owain Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Lewis Davies, John Griffith, K P Hughes, A M Jones, G O Jones, R Meirion Jones, Eric Wyn Jones, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAgS, J A Roberts, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt o hyn ymlaen yn ôl teitl eu swydd gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | R A Dew, Richard Griffiths, Glyn Haynes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Ll Jones, Alun W Mummery, Shaun James Redmond, Dylan Rees ac Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynrychiolwyr o Urdd Gobaith Cymru (ar gyfer eitem 5),<br>Cynrychiolwyr o Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn (ar gyfer eitem 7),<br>Cynrychiolwyr o Môn FM (ar gyfer eitem 9). |

---

### 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

### 2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyniwyd y Datganiadau o Ddiddordeb canlynol fel a ganlyn:-

Bu Mr Aled M Jones ddatgan diddordeb sy’n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 7 – Cais am Grant – Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth

Bu Mr R O Jones ddatgan diddordeb sy’n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 12 – Ceisiadau am Grantiau Mawr (Cais Caru Amlwch) a gadawodd y cyfarfod yn ystod y trafodaethau a’r bleidlais a ddilynodd.

Bu Mr Bryan Owen ddatgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 12 – Cais am Grantiau Mawr (Cais Clwb Pêl-droed Aberffraw) a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais a ddilynodd.

Bu Mr Bob Parry OBE ddatgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 7 – Cais am Grant – Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais a ddilynodd.

Bu Mrs Nicola Roberts ddatgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 5 – Cais am Grant – Urdd Gobaith Cymru a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais a ddilynodd.

Bu'r Ysgrifennydd ddatgan diddordeb mewn perthynas ag Eitem 9 – Cais am Grant – Môn FM.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2019 yn gywir.

## 4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."**

## 5 CAIS AM GRANT - URDD GOBAITH CYMRU

- Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â chais am grant gan Urdd Gobaith Cymru.

  Adroddodd y Trysorydd fod yr Ymddiriedolaeth Elusennol, ym Mehefin 2014, wedi penderfynu dyfarnu grant o £40k y flwyddyn i'r Urdd am gyfnod o 5 mlynedd. Er y dyfarnwyd y grant yn y blynyddoedd ariannol 2014/15, 2015/16, 2016/17, 2017/18 a 2018/19, dim ond £23,333 o'r £40k a ddyfarnwyd i'r Urdd yn ystod 2014/15. O ganlyniad, bydd £16,667 yn cael ei dalu i'r Urdd yn 2019/20. Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr, 2019 fe benderfynodd yr Ymddiriedolaeth y dylid delio â'r cais gan Urdd Gobaith Cymru y tu allan i'r broses ymgeisio flynyddol am grantiau mawr. Yn ogystal, byddai cynrychiolydd o'r sefydliad yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod hwn o'r Ymddiriedolaeth er mwyn rhoi syniad o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Roedd y sefydliad wedi cyflwyno cais newydd am grant o £48k ar gyfer 2019/20.

- Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Urdd Gobaith Cymru i'r cyfarfod. Rhoddodd gynrychiolwyr o'r Urdd gyflwyniad manwl i'r Ymddiriedolaeth llawn ar y gweithgareddau yr oedd y sefydliad wedi ymgymryd â nhw yn ystod y 5 mlynedd diwethaf a rhoddwyd amlinelliad o fwriadau'r Urdd ar gyfer y cyfnod 2019/20.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD yn unfrydol dyrannu grant o £48k i Urdd Gobaith Cymru.**

## 6 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."**

## 7 CAIS AM GRANT – MUDIAD FFERMWYR IFANC YNYS MÔN

- Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â chais am grant gan Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn.

  Adroddodd y Trysorydd fod yr Ymddiriedolaeth Elusennol, ym Mehefin 2014, wedi penderfynu dyfarnu grant o £30k y flwyddyn i Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn am gyfnod o 5 mlynedd. Er y dyfarnwyd y grant yn y blynyddoedd ariannol 2014/15, 2015/16, 2016/17, 2017/18 a 2018/19 dim ond £7,500 o'r £30k a ddyfarnwyd a dalwyd i Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn yn ystod 2014/15. O ganlyniad, bydd £22,500 yn cael ei dalu i Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn yn ystod 2019/20. Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr, 2019 fe benderfynodd yr Ymddiriedolaeth y dylid delio â'r cais gan Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn y tu allan i'r broses ymgeisio flynyddol am grantiau mawr. Yn ogystal, byddai cynrychiolydd o'r sefydliad yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod hwn o'r Ymddiriedolaeth er mwyn rhoi syniad o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Roedd y sefydliad wedi cyflwyno cais newydd am grant dros 5 mlynedd yn dechrau gyda cais am £30k ar gyfer 2019/20.

- Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn i'r cyfarfod.

  Rhoddodd gynrychiolwyr o Fudiad y Ffermwyr Ifanc gyflwyniad manwl i'r Ymddiriedolaeth llawn ar y gweithgareddau yr oedd y sefydliad wedi ymgymryd â nhw yn ystod y 5 mlynedd diwethaf a rhoddwyd amlinelliad o fwriadau Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD:-**

- **Gan y bydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn newid i 'Gymdeithas Elusennol Ynys Môn/The Isle of Anglesey Charitable Association' fe gytunwyd y dylid dyfarnu grant o £30k i Fudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn am gyfnod o flwyddyn;**
- **Argymell i 'Gymdeithas Elusennol Ynys Môn/The Isle of Anglesey Charitable Association' y dylid cefnogi'r cais am grant am gyfnod pellach o 4 blynedd.**

**8 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."**

**9 CAIS AM GRANT – MÔN FM**

- Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â chais am grant gan Môn FM.

  Adroddodd y Trysorydd fod Môn FM wedi cyflwyno cais am grant mawr i'w ystyried gan y Pwyllgor Adfywio yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2019 ac yn y cyfarfod a ddilynodd ar 14 Mawrth, 2019. Yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth, 2019 fe ystyriwyd fod Môn FM yn darparu gwasanaeth i holl drigolion Ynys Môn ac y gallai fod yn haeddiannol o gefnogaeth yr Ymddiriedolaeth ond fod y cyllid a ofynnwyd amdano yn gyfran sylweddol o'r arian a oedd ar gael a, phetai'r cais yn cael ei gefnogi, byddai'n cyfyngu'r arian ar gael ar gyfer ceisiadau eraill. Yn ogystal, roedd y cais yn un am gyfnod o 3 blynedd, tra fod y broses ceisiadau grantiau mawr yn ystyried bod grantiau yn rhai am flwyddyn yn unig. Felly, penderfynodd y Pwyllgor anfon y cais ymlaen at yr Ymddiriedolaeth Elusennol fel cais y tu allan i'r broses grantiau mawr arferol, yn unol â'r penderfyniad a wnaed mewn perthynas â'r ymdriniaeth o geisiadau gan Urdd Gobaith Cymru a Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn.

  Nodwyd fod y cais grant am y symiau canlynol:-

  2019/20 - £50,826
  2020/21 - £47,475
  2021/22 - £19,344

  **Cyfanswm - £117,645**

  Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Môn FM i'r cyfarfod. Rhoddodd cynrychiolwyr Môn FM gyflwyniad manwl i'r Ymddiriedolaeth llawn ar y cais am grant.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNWYD ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd:-**

- **Cymeradwyo'r cais am grant o £50,826 ar gyfer y cyfnod 2019/20;**
  **Bod 'Cymdeithas Elusennol Ynys Môn/The Isle of Anglesey Charitable Association' yn ystyried a ddylid cefnogi'r cyllid grant ar gyfer 2020/21 a 2021/22.**

## 10 ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

**Pwyllgor Adfywio**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel cofnod cywir:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2019
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2019

## 11 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."**

## 12 CEISIADAU AM GRANTIAU MAWR 2019/20

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Trysorydd fod 29 o geisiadau grant wedi eu derbyn a oedd yn dod i gyfanswm o £1.170m. Cynhaliwyd y Pwyllgor Adfywio ar 13 Chwefror, 2019 a cytunwyd ar restr fer o geisiadau a chafodd y rhai hynny lle roedd angen gwybodaeth ychwanegol gan yr ymgeiswyr eu nodi. Cynhaliwyd cyfarfod pellach o'r Pwyllgor Adfywio ar 14 Mawrth, 2019 lle ystyriwyd y ceisiadau ynghyd â'r wybodaeth ychwanegol a chytunwyd ar lefel y cyllid y dylid ei argymell ar gyfer ei gymeradwyo. Penderfynwyd y dylid argymell 11 cais ar gyfer eu cymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth lawn a ddaeth i gyfanswm o £319k. Amlinellodd y Trysorydd y rhesymau pam nad oedd 12 o'r ceisiadau a dderbyniwyd yn cael eu cefnogi fel yr amlinellwyd yn Atodiad 3 o'r adroddiad. Nodwyd ymhellach, fel yr amlinellwyd yn Atodiad 4 o'r adroddiad, bod 4 cais arall wedi eu derbyn ond eglurwyd eu bod wedi derbyn cyllid yn ystod y 5 mlynedd diwethaf ac felly nad oeddent yn cael eu cefnogi.

Penderfynwyd hefyd yn y Pwyllgor Adfywio y dylid gofyn am i'r cais gan Môn FM am gyllid dros 3 blynedd gael ei dynnu allan o'r broses ceisiadau Grantiau mawr a'i drin fel achos arbennig gyda chefnogaeth o'r gyllideb gyfalaf graidd. Mae'r cais wedi'i ystyried o dan eitem 9.

Adroddodd y Trysorydd ymhellach y derbyniwyd cais hwyr gan Copperfest, Amlwch. Cytunodd y Pwyllgor Adfywio dderbyn y cais hwyr hwn ac i anfon y cais ymlaen i'r Ymddiriedolaeth llawn am benderfyniad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Adfywio a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2019 fel â ganlyn:-**

- **Prosiectau a gymeradwywyd**

| Ymgeisydd | Prosiect | Swm a gymeradwywyd |
|---|---|---|
| **Caru Amlwch** | **Cyllid i gyflogi Cydlynydd Prosiect** | **£37,542** |
| **Clwb Rygbi Caergybi** | **Adeiladu ystafelloedd newid a chawodydd pwrpasol** | **£50,000** |
| **Clwb Pêl-droed Aberffraw** | **Darpariaeth Eisteddle ac ystafelloedd newid** | **£54,018** |
| **Age Cymru Gwynedd a Môn** | **Cyllid i gefnogi costau Swyddog Cefnogi Iechyd a Llesiant Cymdeithasol i gefnogi pobl 50+ ar Ynys Môn** | **£13,000** |
| **Hosbis Dewi Sant** | **Cyllid i gefnogi uned ofal hosbis pedwar gwely wedi'i leoli o fewn Ysbyty Penrhos Stanley** | **£34,000** |
| **Menter Gymdeithasol CIC Parc Mount** | **Cyllid ar gyfer gwaith adeiladu a chostau sefydlu Gwasanaeth Canolfan Ddydd Dementia** | **£12,026** |
| **Meithrinfa Morlo** | **Cyllid i ddarparu llawr newydd, gosod boeler newydd a gwneud gwaith trydanol ynghyd ag adnodd dysgu newydd** | **£27,397** |
| **Stroke Association** | **Cyllid i gefnogi cyflog a chostau gweithredu Cydlynydd a fydd yn darparu cymorth i bobl sydd wedi dioddef strôc a'u gofalwyr** | **£10,895** |
| **Medrwn Môn** | **Cyllid am 2 flynedd i gefnogi Prosiect Partneriaeth rhwng y Cyngor Sir a Menter Môn** | **£58,000** |
| **Gŵyl Forwrol Hamdden a Threftadaeth Caergybi** | **Cyllid i dalu am logi'r babell fawr a'r toiledau ar gyfer Gŵyl Caergybi** | **£7,854** |
| **Cwmni Budd Cymunedol Wild Elements** | **Cyllid i ddarparu dau raglen hyfforddiant 12 wythnos sydd wedi eu cynllunio i helpu 20 o bobl o gefndiroedd difreintiedig** | **£14,633** |

- **I gefnogi dyrannu'r balans sy'n weddill o'r cyllid, sef £30,635 i Copperfest, Amlwch;**

- **Dirprwyo'r awdurdod i'r Trysorydd gysylltu ag ymgeiswyr aflwyddiannus yn nodi'r rhesymau pam na chafodd eu ceisiadau eu cymeradwyo;**

- **Dirprwyo awdurdod i'r Trysorydd anfon 'Llythyr o Gynnig' ffurfiol i'r ymgeiswyr llwyddiannus.**

**13 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."**

**14 LLYWODRAETHIANT YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN (YEYM) A CHYMDEITHAS ELUSENNOL YNYS MÔN**

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod Swyddogion Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn bellach yn rhoi cyfarwyddyd i Browne Jacobson baratoi'r weithred a fydd yn trosglwyddo'r asedau a'r bwriad yw cwblhau'r trosglwyddiad yn ystod mis Mai neu Fehefin. Cafodd yr awdurdod i wneud y penderfyniad ei ddirprwyo i'r Ysgrifennydd fel rhan o benderfyniadau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar 27 Mehefin, 2018. Mae gweithredu'r ddirprwyaeth yn amodol ar ymgynghori gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

**PENDERFYNWYD nodi'r bwriad i drosglwyddo asedau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i Gymdeithas Elusennol Ynys Môn o fewn yr wythnosau nesaf yn unol â phenderfyniad Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn dyddiedig 27 Mehefin, 2018.**

**15 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."**

**16 YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN (YEYM), SEFYDLU'R CIO, LLESIANT CYMUNEDOL A GWASANAETHAU ANSTATUDOL**

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn â'r uchod.

Adroddodd yr Ysgrifennydd fod yr adroddiad yn tynnu sylw at rai o'r materion allweddol sydd angen eu hystyried fel rhan o'r trosglwyddiad o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i'r Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO) fel a ganlyn:-

- Cyllid grant a datblygu blaenoriaethau llesiant seiliedig ar y gymuned;
- Defnyddio pwerau'r CIO er mwyn darparu gwasanaethau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at wella llesiant dinasyddion;
- Agweddau gweinyddol

Dywedodd yr Ysgrifennydd ymhellach ei bod yn bwysig bod cynllun cynllunio lle lefel uchel (y Cynllun) yn cael ei fabwysiadu ar gyfer yr Ynys, wedi'i ddylunio er mwyn datblygu 'llesiant a gwytnwch cymunedol'. Yn y tymor byr, awgrymir bod angen i unrhyw geisiadau fod â chysylltiad â'r Cynllun.

Nodwyd ymhellach y bydd asedau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn trosglwyddo i berchnogaeth y CIO (Y Gymdeithas) fel corff cyfreithiol elusennol cofrestredig ar wahân. Unwaith y bydd yr asedau wedi eu trosglwyddo, ymddiriedolwyr 'Y Gymdeithas' fydd yn gwneud yr holl benderfyniadau yn y dyfodol mewn perthynas â'r cyllid elusennol. O ganlyniad, awgrymir y bydd 'Y Gymdeithas' yn dymuno sefydlu trefniadau ei hun.

Dywedodd yr Ysgrifennydd fod angen i rôl yr Ysgrifennydd fod yn un benodol ac yn un sydd ar wahân i rôl unrhyw Swyddog cysylltiedig â'r Cyngor a nodwyd hyn mewn modd a ddylid adlewyrchu'r disgwyliad hwn.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, **PENDERFYNWYD:-**

- **Argymell i'r CIO (Y Gymdeithas) ei fod yn mabwysiadu cynllun Cynllunio Lle lefel uchel (y Cynllun) ar gyfer yr Ynys sydd wedi'i ddylunio er mwyn datblygu 'llesiant a gwytnwch cymunedol'. Yn y tymor byr, sicrhau bod unrhyw geisiadau grant â chysylltiad â'r Cynllun – bydd hyn yn arwain at geisiadau sy'n fwy strategol eu natur ac sydd wedi eu cynllunio er mwyn gwella llesiant cymunedol. Yn y tymor hirach, dylid defnyddio'r Cynllun er mwyn datblygu cynllun cynllunio lle sy'n adnabod y blaenoriaethau 'llesiant' a chynaliadwyedd ar gyfer pob ardal gymunedol;**
- **Amlinellu'r gweithgareddau CIO posibl a fyddai'n darparu cymorth ar gyfer gwasanaethau sy'n seiliedig ar y gymuned a sicrhau bod cyngor arbenigol yn cael ei geisio er mwyn sicrhau eu cyfreithlondeb;**
- **Gwneud trefniadau addas er mwyn sicrhau darpariaeth cymorth ariannol a chyfreithiol o safon uchel;**
- **Gwahanu rôl yr Ysgrifennydd oddi wrth unrhyw Swyddog cysylltiedig â'r Cyngor a datblygu swydd ddisgrifiad manwl sy'n adlewyrchu hyn a'r disgwyliadau y mae angen eu gwireddu.**

**Mr Trefor Ll Hughes MBE**
**Cadeirydd**

# Pwyllgor Grantiau Cyffredinol

## Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 10 Gorffennaf, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br>Margaret M Roberts (Is-gadeirydd)<br><br>Lewis Davies, R Dew, Glyn Haynes, Dylan Rees, P S Rogers. |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR),<br>Rheolwr Grantiau (JW),<br>Swyddog Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Llinos Medi Huws, R O Jones. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | T Ll Hughes MBE – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. |

---

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Gwnaeth Mr Dylan Rees ddatganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas â chais 007 (Gobaith Môn) a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2018.
*(Cafodd y cofnodion eu cadarnhau gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn ei gyfarfod ar 18 Medi, 2018).*

**3 GRANTIAU BLYNYDDOL 2019/20**

Cyflwynwyd – adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Dywedwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd ystyried y ceisiadau a oedd yn berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Dyrennir arian yn flynyddol ar gyfer prosiectau yn y categorïau canlynol:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bychan)
Grantiau Eraill (grantiau unwaith ac am byth yn bennaf)

Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr, 2019, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn ddirprwyo cyllideb o £125k i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol ar gyfer y rhaglen grantiau blynyddol. Yn ogystal, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn yn ei gyfarfod i ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymeradwyo ceisiadau am Grantiau Bach ac, o'r herwydd, ni fydd angen i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn ond nodi cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol o hyn ymlaen. Uchafswm y grant mewn perthynas â Grantiau Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon yw £8,000 a hyd 70% o'r gost gymwys. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2011, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn roi hyblygrwydd i'r Pwyllgor hwn i godi'r uchafswm a'r gyfradd o gefnogaeth yn wyneb y ceisiadau a ddeuai i law.

Mae'r swyddogion perthnasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd, i'r graddau y mae hynny'n bosibl ac yn gyson gyda phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth a meini prawf a sefydlwyd yn y gorffennol. Mae system gyfeirio ar y cyd wedi cael ei sefydlu ar gyfer y ddau fath o grantiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ac ar gyfer ceisiadau am gyllid o Gronfa'r Degwm; bydd unrhyw fylchau yn y cyfeirnodau i'w priodoli i'r ffaith bod y grantiau hynny wedi cael eu cyflwyno i Gronfa'r Degwm yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth hon.

Mae'r ceisiadau yn cael eu hystyried yn unol â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dosbarthu Grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn', ac mae copi ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad.

**Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellwyd ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon 2019/20 fel a ganlyn:-**

| | | |
|---|---|---|
| 001 – DHDC (Darganfod Hen Dai Cymreig) | Cyfieithu hanes llawn deiliaid Plas Penmynydd o 1500 hyd heddiw, yn cynnwys adroddiad pensaernïol a thaflenni o hanes byr Plas Penmynydd ar gyfer ymwelwyr. | **£3,500** |
| 002 – Parti Meibion Bara Brith | Prynu allweddell a weithredir gan fatri i biano trydan i'w defnyddio lle nad oes trydan ar gael ac i brynu bag i'w gludo. | **£79** |
| 005 - MÔN-SAR | Prynu offer achub hanfodol i ymdopi gydag ehangu'r tîm a chyhoeddusrwydd.<br>*(cais wedi ei gyfeirio i'r Pwyllgor Adfywio)* | **DIM** |
| 006 – Cymdeithas Ddinesig Bro Porthaethwy | Cyhoeddi llyfryn yn ymwneud â bwyd traddodiadol Ynys Môn. Uwchraddio'r Wefan i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. | **£848** |
| 007 – Gobaith Môn | Prynu cawell pêl-droed a threlar. | **£5,600** |

| | | |
|---|---|---|
| 008 – Neuadd Goffa Bodedern | Amnewid dau foeler gwres canolog a phrynu byrddau a throli i'w cludo. | **£5,005** |
| 009 – Cyngor Cymuned Bryngwran | Gosod matiau diogelwch o dan/o gwmpas offer cae Chwarae Bryngwran.<br>(*Wedi derbyn grant yn 2017/18 felly ddim yn gymwys)* | **DIM** |
| 010 – Cantorion Menai | Prosiect Cerddorol ar raddfa fawr i lwyfannu gwaith corawl gydag unawdwyr Proffesiynol o Gymru, Cantorion Menai a cherddorfa leol. | **£4,500** |
| 012 – GeoMôn UNESCO Global Geopark | Prynu offer cyfrifiadurol i'w ddefnyddio gan ymwelwyr i'r Tŵr Gwylio GeoMôn yn Amlwch. | **£2,380** |
| 013 – Cyngor Cymuned Llanddaniel | Prynu offer ar gyfer y cael chwarae.<br>*(yn amodol ar dderbyn amcancyfrif)* | **£7,000** |
| 014 – Jon Egging Trust | I gyflogi Swyddog Cyswllt Ieuenctid dwyieithog i gyflwyno pecynnau 'Blue Skies Inspire' i ddwy ysgol ar Ynys Môn.<br>*(cais wedi ei gyfeirio i'r Pwyllgor Adfywio)* | **DIM** |
| 015 – Pwyllgor Gŵyl Montage | Trefnu gŵyl undydd 'Ysgrifennu Môn.<br>*(cais wedi ei gyfeirio i'r Gronfa'r Degwm)* | **DIM** |
| 016 – Canolfan Cynghori Ynys Môn | Uwchraddio'r adeilad maent wedi symud iddo'n ddiweddar a phrynu dodrefn ail-law a dodrefn ystafell fwyta newydd.<br>*(rhoi grant tuag at gost y dodrefn yn unig ar yr amod y cyflwynir ail amcangyfrif. Dim yn gymwys ar gyfer cyllid ar gyfer gwaith* | **£559** |

*atgyweirio oherwydd nid oes ganddynt brydles 21+ blynedd)*

| | | |
|---|---|---|
| 017 – Canolfan Iorwerth Rowlands | Prynu a gosod boeler newydd a gwaith ategol. | **£6,951** |

**Cais wedi ei gyfeirio o'r Grantiau Mawr fel a ganlyn:-Application referred from**

| | | |
|---|---|---|
| 17 - Cerddoriaeth mewn Ysbytai a Gofal Cymru | Darparu dau gyngerdd cerddoriaeth byw proffesiynol ar gyfer yr henoed, y bregus ac i bobl sydd yn byw yng Nhartrefi Gofal Ynys Môn. | **DIM** |

*(cais wedi ei gyfeirio i'r Gronfa'r Degwm)*

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cymeradwyo'r symiau, fel a restrir uchod (£36,422) [yn ymyl y symiau a argymhellwyd], sef cyfradd grant o 70%;**
- **bod hysbyseb bellach yn cael ei rhoi yn y wasg leol ac ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Medi 2019 am geisiadau am grantiau gan sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau eraill oherwydd mai ychydig iawn o geisiadau a dderbyniwyd am gymorth Grantiau Cyfalaf ar gyfer Cyfleusterau Cymuned a Chwaraeon yn 2019/20;**
- **bod y ceisiadau sydd wedi derbyn cyllid grant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn cael eu hystyried (os oes arian ar gael) ar ddiwedd y broses dyrannu grantiau.**

**Mr Vaughan Hughes**
**CADEIRYDD**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN |
| **DYDDIAD** | 24 Medi 2019 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Llywodraethiant Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn [YEYM] a Chymdeithas Elusennol Ynys Môn / The Isle of Anglesey Charitable Association |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I ddiweddaru ar drosglwyddo asedau YEYM i'r Gymdeithas Elusennol / Charitable Association [Y Gymdeithas] |
| **ADRODDIAD GAN** | Ysgrifennydd – Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |
| **GWEITHREDU** | YEYM i nodi'r bwriad o drosglwyddo i'r Gymdeithas |

1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn ei gyfarfodydd ym mis Rhagfyr 2016 a mis Chwefror 2017 penderfynodd YEYM i greu cymdeithas elusennol gofrestredig [CEG] a chytunodd ar nifer o ddarpariaethau ynglŷn â ffurf a chyfansoddiad y CEG. Enw'r CEG fyddai "Cymdeithas Elusennol Ynys Môn / The Isle of Anglesey Charitable Association" [Y Gymdeithas]. Yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2016 rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad gan gyfreithwyr cwmni Browne Jacobson a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i gynghori ac ateb cwestiynau. Yn y cyfarfod ym mis Chwefror cytunodd YEYM i greu'r CEG a dirprwyo i Ysgrifennydd YEYM yr hawl i gyflwyno'r cais ffurfiol a delio â materion cysylltiedig yn unol â chyngor gan Browne Jacobson.

1.2 Cyflwynwyd y cais i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau fyddai'n creu'r CEG ychydig cyn etholiadau'r cyngor sir ym mis Mai 2017 a chymeradwyodd y Comisiwn Elusennau'r cais ym mis Medi 2017. Mae'r CEG wedi ei chreu a'i chofrestru fel endid cyfreithiol ar wahân a'i rhif elusen gofrestredig yw 1174536, ond nid yw'n weithredol eto ac nid oes ganddi asedau na rhwymedigaethau.

1.3 Yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin 2018 rhoddwyd awdurdod amodol i drosglwyddo asedau YEYM o stiwardiaeth y Cyngor yn ei swyddogaeth fel unig ymddiriedolwr yr elusen i'r Gymdeithas fel corff ar wahân. Mae'r adroddiad yma yn diweddaru aelodau ac yn rhybuddio fod y trosglwyddiad am ddigwydd ar ddiwedd y mis yma.

2. TROSGLWYDDO ASEDAU

2.1 Yn unol â'r hawl dirprwyedig a roddwyd i'r Ysgrifennydd, mae swyddogion YEYM bellach wedi cyfarwyddo Browne Jacobson i baratoi y weithred fydd yn trosglwyddo'r asedau ac, ar y dyddiad o ysgrifennu'r adroddiad yma, mae'r weithred wedi ei chwblhau efo'r dyddiad pan y daw i rym wedi ei benodi i fod yn 30 Medi 2019. Ar y dyddiad yna mi fydd asedau'r YEYM yn trosglwyddo i'r Gymdeithads ac wedyn y Gymdeithas fydd y corff cyfreithiol fydd yn gyfrifol am yr asedau elusennol.

2.2 Wedi i'r asedau gael eu trosglwyddo, ymddiriedolwyr elusen Y Gymdeithas fydd yn gwneud pob penderfyniad yn y dyfodol mewn perthynas â'r arian elusennol. Mi fydd yn rhaid i YEYM gyfarfod unwaith yn rhagor er mwyn dirwyn ei faterion i ben. Pethau megis cymeradwyo'r cyfrifon olaf. Mi fydd y cyfarfod yma yn cael ei drefnu maes o law.

3. TASGAU Y GYMDEITHAS

3.1 Mi fydd angen cyfarfod byr cychwynol o'r Gymdeithas rhywbryd yn fuan wedi 30 Medi 2019. Pwrpas y cyfarfod cychwynol fydd i ethol: Cadeirydd, Is-Gadeirydd, a swyddogion; ac i awdurdodi pwy all lofnodi sieciau a delio gyda arian ar ran y Gymdeithas.

3.2 Yna mi fydd angen i'r Gymdeithas ddechrau ystyried ei rhaglen waith newydd ac ymgymryd a nifer os swyddogaethau i allu iddi weithio yn effeithlon. Pwrpas yr adroddiad yma yw ond i amlygu rhai o'r tasgiau yma a nid i'w gwyntyllu yn sylweddol. Fodd bynnag, mi fydd yn ddefnyddiol i aelodau ddechrau ystyried y materion yma rwan er mwyn i'r Gymdeithas fod yn barod i symud ymlaen yn fuan wedi 30 Medi. Rhai o'r prif dasgau ar gyfer Y Gymdeithas newydd yn dilyn derbyn yr asedau elusennol fydd:

3.2.1 Rhoi sylw i'r dasg weinyddol o ddileu'r cynghorwyr etholedig hynny a benodwyd fel ymddiriedolwyr gwreiddiol oherwydd nad ydynt yn gynghorwyr mwyach yn dilyn etholiadau lleol 2017, ac rhoi sylw i'r dasg o benodi'r cynghorwyr newydd hynny gafodd eu hethol o'r newydd yn 2017 yn ymddiriedolwyr ar Y Gymdeithas;

3.2.3 Mabwysiadu dull o ddewis dau ymddiriedolwr annibynnol ar Y Gymdeithas a chytuno ar eu swydd ddisgrifiad a manyleb person. Mae ychydig o waith wedi cychwyn ar hyn o dan oruchwyliaeth y Panel a ddewiswyd peth amser yn ôl;

3.2.4 Ystyried pwy fydd yn gweinyddu'r Gymdeithas o ran swyddogion gweithredol arweiniol (cyfatebu i Ysgrifennydd presennol YEYM), cyllid, cyfreithiol a gweinyddol; beth fydd eu dyletswyddau; ac a fydd staff yn cael eu cyflogi, ac os felly, at ba ddibenion;

3.2.5 Cytuno ar nifer o faterion gweinyddol, megis: pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd; dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; a oes angen unrhyw

bwyllgorau ac, os felly, eu cylch gorchwyl; polisi grantiau; cyllideb am weddill y flwyddyn ariannol 2019-20; ymgynghorwyr ar fuddsoddiadau a materion eraill tebyg.

3.5 Bydd yr Ysgrifennydd yn galw cyfarfod cyntaf o’r Gymdeithas wedi’r trosglwyddiad asedau i’r pwrpas yr amlygir ym mharagraff 3.1 yn fuan..

4. ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i YEYM nodi’r bwriad o drosglwyddo asedau’r YEYM i’r Gymdeithas ar 30 Medi 2019.

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

***(CAIS AM GRANT CWMNI BUDD CYMUNEDOL CEMAES /GRANT APPLICATION CEMAES COMMUNITY INTEREST COMPANY)***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

Paragraff(au) 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972
Paragraph(s) 14 Schedule 12A Local Government Act 1972

Y PRAWF – THE TEST

| | |
|---|---|
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
| Mae'r Ymddiriedolaeth yn agored ac yn dryloyw ynghylch sut mae ei cronfeydd yn cael eu defnyddio. | Mae'r adroddiad sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitive i'r Ymddiriedolaeth neu'r mudiad sy'n derbyn grant. |
| The Trust is open and transparent how its funds are being used | The attached report contains commercially sensitive information for the Trust or to the organisation receiving a grant. |

Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]

Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank